Helynt yr eira

Dydd Gwener diwethaf, Rhagfyr 7fed fe es i a'r teulu i gychwyn am Fangor i weld Nain a Taid. Roedd hi yn noson oer iawn ac roedd hi'n wyntog pan oeddem yn cychwyn o Benrhyn-coch. Dechreuodd hi fwrw eirlaw pan oeddem yn Nhrawsfynydd a doedd Dad ddim yn gallu gweld yn iawn. Ar hyd y ffordd roedd wedi troi yn eira trwm. Roeddwn yn teimlo yn gynhyrfus i ddechrau ond wedyn roeddwn yn poeni rhag ofn i ni fynd yn sownd.

Y tu allan i Llanllyfni stopio ni achos bod damwain wedi digwydd. Roedd chwech car wedi taro yn ei gilydd. Ac roedd y ffordd wedi cau. Wrth i ni stopio fe wnaeth y car sgidio a troi rownd. Roeddwn yn poeni nawr! Aeth Mam i ffonio i rhyw dŷ, ac roeddem yn aros yn y car am awr a hanner. Roedd hi yn dal i fwrw eira ac roedd Dad a Mam yn poeni bod ni yn mynd i aros yno drwy'r nos! Aeth Dad i siarad gyda rhyw ddyn mewn het bobl. Dyma fi yn sylweddoli mai Bryn Fôn oedd e (Sobin a'r Smaeliaid). Fe wnaeth e helpu ni a dangos ffordd arall i ni. Fe wnaethom gyrraedd tŷ Nain a Taid hanner nos a doedd dim eira yno o gwbl, dim ond glaw. Dyna braf oedd cyfarfod Sobin.

Rhian Hâf Williams